**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

16 Medi 2020

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â chraffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r Protocol rhwng Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Senedd Cymru.

Fel yr ydych yn nodi yn eich llythyr, mae'r Protocol a gytunwyd ym mis Hydref 2018 rhwng eich Pwyllgor a Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ers 31 Ionawr 2020 yn unol â'r telerau a gytunwyd. Mae'r Protocol wedi gwneud cyfraniad positif i'r gwaith effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Rwy'n cytuno yn sgil y cyfnod pontio a'r disgwyliad y bydd deddfwriaeth bellach yn ymwneud â'r ymadawiad â'r UE, y dylai'r Protocol barhau i fod yn berthnasol, fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, i reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gan ehangu ei delerau i fod yn gymwys i'r rheoliadau perthnasol a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 neu Ddeddf 2018 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020, a hefyd y rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Biliau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Amgylchedd a Masnach pan fyddant wedi'u deddfu.

O ran gweithredu proses Rheol Sefydlog 30C, rwyf hefyd yn cytuno y gall y Protocol a atgyfodir fod yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddilyn egwyddor proses Rheol Sefydlog 30C pan fydd Gweinidogion Cymru'n rhoi eu cydsyniad ar gyfer y rheoliadau perthnasol a wnaed o dan Ddeddf 2020, Deddf 2018 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020 ac, yn dilyn adolygiad pellach, y Biliau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Amgylchedd a Masnach pan fyddant wedi'u deddfu. Bydd angen adolygu'r cytundeb hwn, a thrafod a chytuno ar unrhyw ddiwygiadau pellach i'r Protocol yn ôl yr angen. Dylai'r Protocol hwn a ehangwyd fod yn weithredol tan ddiwedd y Pumed Senedd.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.